Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adroddiad Blynyddol 2014 – 2015

Hydref 2017

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	7
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	24
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	25
Adran 5	Gwariant	26

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG27478 ISBN digidol 978 1 4734 4953 4

Rhagair

Dyma fy 12fed Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n cwmpasu'r cyfnod Medi 2014 i Awst 2015.

Ein nod yw sicrhau bod y Tribiwnlys yn gwasanaethu er budd pobl yng Nghymru sydd ag anghydfod sy'n dod o dan ein hawdurdodaeth, drwy ymdrin ag anghydfod o'r fath yn effeithlon ac yn effeithiol. Yn benodol, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r anghydfod yn fodlon bod yr anghydfod wedi'i ddatrys yn deg, a hynny o fewn cyn lleied o amser ag sy'n rhesymol.

Fel y gwelir o'r ystadegau a nodir yn yr Adroddiad, mae nifer yr apeliadau wedi cynyddu'n gyffredinol yn y cyfnod hwn i 101 apêl, o'i gymharu â 78 apêl y llynedd. Roedd oddeutu hanner yr apeliadau hyn yn ymwneud ag anghydfodau cyn datganiad, ac mae'n destun pryder bod 55% o apeliadau Gwrthod Asesu yn cael eu tynnu'n ôl gan yr Awdurdod Lleol cyn y gwrandawiad. Mae hyn yn achosi cryn straen a chost ariannol i rieni, a dylid annog Awdurdodau Lleol i edrych yn ofalus ar bob cais cyn eu gwrthod. Oherwydd y cynnydd hwn yn nifer yr apeliadau Gwrthod Asesu, roeddem ni, fel Tribiwnlys, yn teimlo bod angen gwella ein systemau. Felly, aethom ati i dreialu trefniant newydd yn ystod y flwyddyn i gwblhau apeliadau Gwrthod Asesu o fewn 10 wythnos yn hytrach nag 20 wythnos. Rwy'n falch o allu datgan bod y trefniant hwn wedi bod yn llwyddiant, ac mae bellach wedi'i fabwysiadu gan y Tribiwnlys. Golyga hyn, felly, fod pob apêl o'r fath yn 2014/15 wedi cwrdd â'r targed hwn.

Mae'r penderfyniad i gyflwyno gwrandawiadau papur ar gyfer apeliadau llai cymhleth hefyd wedi'i groesawu gan ein defnyddwyr, a daeth 11 cais i law eleni ar gyfer y math hwn o wrandawiad. O ganlyniad i hyn, cofrestrwyd pum gwrandawiad papur a chwblhawyd un ohonynt. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwrandawiadau papur am ein bod o'r farn y gallant fod yn ddefnyddiol ac yn gost effeithiol i bob parti mewn rhai achosion penodol.

Yn ogystal, mae'r Tribiwnlys wedi cyflwyno trefniadau rheoli achosion yn ystod y flwyddyn ar gyfer rhai o'r apeliadau a'r hawliadau mwy cymhleth. Rydym yn gobeithio y bydd gofyn i bartïon gyflwyno dogfennau perthnasol yn golygu bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Tribiwnlys ar gael yn y gwrandawiadau, ac y bydd hyn yn osgoi gohirio neu oedi sy'n gallu bod yn rhwystredig ac yn ddrud i bawb. Mae hyn yn ddatblygiad pwysig iawn gan fod ein hapeliadau a'n hawliadau'n parhau i fod yn gymhleth.

O ran hawl plant i apelio, cafodd y Tribiwnlys un apêl gan blentyn. Roedd y plentyn dan sylw'n blentyn sy'n derbyn gofal a chafodd yr achos ei ddatrys yn y pen draw ac felly ni fu'n rhaid mynd â'r apêl ymhellach. Fodd bynnag, fe wnaeth yr achos hwn ddangos yn glir y rôl bwysig sydd gan weithwyr cymdeithasol yn yr agenda hawliau plant. Er ein bod ond wedi cael un apêl gan blentyn hyd yn hyn, rwy'n credu'n gryf bod natur y ddeddfwriaeth ar hawl plant i apelio wedi gwella'r sefyllfa o ran gwrando ar ein plant a phobl ifanc a chlywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Mae ein Cadeiryddion, ein Haelodau ac Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys wedi parhau i weithio'n galed eleni. Mae gennym ni, fel Tribiwnlys, ynghyd â'r rhan fwyaf o sefydliadau, gyfyngiadau ar ein cyllideb ac mae'r cyd-destun hwn yn amlygu gwaith rhagorol ac ymrwymiad Cadeiryddion y Tribiwnlys, yr Aelodau a'r Ysgrifenyddiaeth. Rwy'n ddiolchgar iawn iddynt i gyd am eu hymdrechion a hefyd am eu cefnogaeth ddiflino a'u brwdfrydedd. Gyda chefnogaeth o'r fath, edrychaf ymlaen at heriau'r flwyddyn sydd i ddod.

Rhiannon Walker
Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Sail ar gyfer TAAAC
- Swyddogaeth TAAAC
- Rheoliadau TAAAC
- Proses TAAAC
- Aelodau TAAAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAAAC
- Defnyddio TAAAC

Sail ar gyfer TAAAC

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, yn unol ag Adran 333 (1ZA) Deddf Addysg 1996. Mae TAAAC, ei aelodau a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (ALlau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAAAC a'i gefnogaeth weinyddol.

Ers 5 Ionawr 2015, mae plant a phobl ifanc wedi gallu cyflwyno eu hapêl neu hawliad eu hunain i TAAAC, hawl newydd nad yw'n effeithio ar hawliau presennol rhieni na gwarcheidwaid i gyflwyno apêl i TAAAC. Cyflwynwyd yr hawl newydd hon yn sgil Mesur Addysg (Cymru) 2009, a ddiwygiodd ddarpariaethau dan Ddeddf Addysg 1996.

Swyddogaeth TAAAC

Mae TAAAC yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig. Rhieni sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r ALl wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn. Mae TAAAC hefyd yn gwrando ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

Rheoliadau TAAAC

Mae TAAAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan TAAAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAAAC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAAAC. Maent hefyd yn sicrhau bod bob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Caiff gweithdrefnau TAAAC eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Proses TAAAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAAAC lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol i TAAAC.

Mewn gwrandawiad TAAAC mae'r panel yn cynnwys Cadeirydd sy'n gyfreithiol gymwys a dau Aelod Panel Addysg. Mae'r Aelodau o fyd Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd cyffredinol a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAAAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd.

Aelodau TAAAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Chadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel o fyd Addysg.

Llywydd:	Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Cadeiryddion:	Rheolir gwrandawiadau'r tribiwnlys gan gadeirydd, ac mae'n rhaid iddo fod yn gyfreithiol gymwys. Bydd yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen.
Aelodau'r Panel o Fyd Addysg:	Mae Aelodau'r Panel o fyd Addysg yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawiad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
Ysgrifenyddiaeth:	Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i bartïon yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartïon yr achos ac mae clerc yn bresennol ym mhob gwrandawiad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Ni wnaed unrhyw benodiadau newydd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad. Serch hynny, cafodd penodiadau 3 aelod eu hadnewyddu yn ystod blwyddyn y Tribiwnlys.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd cynhadledd hyfforddiant i'r holl aelodau ym mis Hydref 2014. Cafodd 3 aelod o TAAAC eu gwerthuso yn ystod cyfnod yr adroddiad. Cafodd yr aelodau eraill eu gwerthuso yn ystod cyfnod yr adroddiad blaenorol.

Cysylltu â TAAAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAAAC:

Cyfeiriad TAAAC: Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Llinell Gymorth TAAAC: 03000 259800

Ffacs TAAAC: 03000 259801

E-bost TAAAC: tribunalenquiries@cymru.gsi.gov.uk

Defnyddio TAAAC

Mae TAAAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen i ddehonglydd iaith arwyddion ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd anabledd neu ofynion eraill o ran mynediad gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, yn effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyr neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y mynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Medi i fis Awst. Dyma'r ystadegau a gaiff eu casglu:

Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2014-15, o'i gymharu â 2013-14	Siart 2.1	Tudalen 8
Mathau o apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15, o'i gymharu â 2013-14	Tabl 2.2	Tudalen 8
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl awdurdod lleol, o'i gymharu â 2013-14	Tabl 2.3	Tudalen 9
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)	Tabl 2.4	Tudalen 10
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)	Tabl 2.4	Tudalen 11
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 am bob 10,000 o boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol, o'i gymharu â 2013-14	Siart 2.5	Tudalen 12
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl	Tabl 2.6	Tudalen 13
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol	Tabl 2.7	Tudalen 14
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl anghenion addysgol arbennig, o'i gymharu â 2013-14	Siart 2.8	Tudalen 15
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl rhywedd	Siart 2.9	Tudalen 16
Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl tarddiad ethnig	Siart 2.10	Tudalen 16
Apeliadau yn ôl canlyniad 2014-15, o'i gymharu â 2013-14	Tabl 2.11	Tudalen 17
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2014-15 (Rhan 1)	Tabl 2.12	Tudalen 18
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2014-15 (Rhan 2)	Tabl 2.12	Tudalen 18
Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol 2014-15	Tabl 2.13	Tudalen 19
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2014-15, o'i gymharu â 2013-14	Siart 2.14	Tudalen 20
Mathau o hawliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15, o'i gymharu â 2013-14	Tabl 2.15	Tudalen 20
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2014-15, o'i gymharu â 2013-14	Siart 2.16	Tudalen 21
Ceisiadau llywyddol yn ystod 2014-15	Siart 2.17	Tudalen 21

Siart 2.1 Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2014-15, o'i gymharu â 2013-14



Tabl 2.2 Mathau o apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15, o'i gymharu â 2013-14

Math o Apêl	2014-2015		2013-2014	
	Cyfanswm yr Apeliadau 101		Cyfanswm yr Apeliadau 78	
Gwrthod asesu	40	39%	26	33%
Gwrthod rhoi Datganiad	14	14%	10	13%
Gwrthod ailasesu	0	0%	1	1%
Dirwyn Datganiad i Ben	0	0%	2	3%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	11	11%	10	13%
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	18	18%	18	23%
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	8	8%	4	5%
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	8	8%	5	6%
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	2	2%	2	3%

Tabl 2.3 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl awdurdod lleol, o'i gymharu â 2013-14

	2014-2015		2013-2014	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau
Blaenau Gwent	0	0%	2	3%
Pen-y-bont ar Ogwr	5	5%	1	1%
Caerffili	6	6%	3	5%
Caerdydd	10	10%	7	9%
Sir Gaerfyrddin	1	1%	0	0%
Ceredigion	3	3%	4	5%
Conwy	11	11%	4	5%
Sir Ddinbych	3	3%	0	0%
Sir y Fflint	3	3%	1	1%
Gwynedd	1	1%	1	1%
Merthyr Tudful	2	2%	1	1%
Sir Fynwy	4	4%	4	5%
Castell-nedd Port Talbot	6	6%	3	4%
Casnewydd	10	10%	11	14%
Sir Benfro	5	5%	3	4%
Powys	11	11%	4	5%
Rhondda Cynon Taf	2	2%	8	10%
Abertawe	10	10%	10	13%
Torfaen	6	6%	4	5%
Bro Morgannwg	2	2%	5	6%
Wrecsam	0	0%	0	0%
Ynys Môn	0	0%	2	3%

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1)

	Gwrthod asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod ailasesu	Peidio â Pharhau
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	2	0	0	0
Caerffili	1	0	0	0
Caerdydd	3	4	0	0
Sir Gaerfyrddin	1	0	0	0
Ceredigion	1	2	0	0
Conwy	3	2	0	0
Sir Ddinbych	0	0	0	0
Sir y Fflint	0	0	0	0
Gwynedd	1	0	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0
Sir Fynwy	1	1	0	0
Castell-nedd Port Talbot	2	2	0	0
Casnewydd	6	1	0	0
Sir Benfro	1	0	0	0
Powys	6	2	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	1	0	0
Abertawe	5	1	0	0
Torfaen	4	0	0	0
Bro Morgannwg	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0

Tabl 2.4 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	1	1	0	0
Caerffili	0	2	2	0	1
Caerdydd	2	1	0	0	0
Sir Gaerfyrddin	0	0	0	0	0
Ceredigion	0	0	0	0	0
Conwy	1	4	1	0	0
Sir Ddinbych	0	1	0	1	1
Sir y Fflint	1	1	0	0	1
Gwynedd	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	1
Sir Fynwy	0	0	1	0	1
Castell-nedd Port Talbot	2	0	0	0	0
Casnewydd	2	0	1	0	0
Sir Benfro	1	2	1	0	0
Powys	0	2	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	0	0	1	0	0
Abertawe	0	2	0	0	2
Torfaen	1	1	0	0	0
Bro Morgannwg	0	1	0	1	0
Wrecsam	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0

Siart 2.5 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 am bob 10,000 o boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol, o'i gymharu â 2013-14



Tabl 2.6 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl

	Nifer yr apeliadau			
	Meithrinfa	Cynradd	Pontio Cynradd[1]	Uwchradd
Gwrthod Asesu	0	27	0	13
Gwrthod rhoi Datganiad	0	8	1	5
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	5	3	3
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	5	4	9
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	5	0	3
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	1	1	0
Cynnwys Datganiad Rhan 4	0	3	3	2
Gwrthod Ailasesu	0	0	0	0
Dirwyn Datganiad i Ben	0	0	0	0
Cyfanswm	0	54	12	35

[1] Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd.

Tabl 2.7 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol

	Nifer yr apeliadau			
	Meithrinfa	Cynradd	Pontio Cynradd	Uwchradd
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	4	1	0
Caerffili	0	2	2	2
Caerdydd	0	6	2	2
Sir Gaerfyrddin	0	1	0	0
Ceredigion	0	1	1	1
Conwy	0	5	1	5
Sir Ddinbych	0	0	2	1
Sir y Fflint	0	0	0	3
Gwynedd	0	1	0	0
Merthyr Tudful	0	1	0	1
Sir Fynwy	0	1	0	3
Castell-nedd Port Talbot	0	2	0	4
Casnewydd	0	7	1	2
Sir Benfro	0	3	0	2
Powys	0	5	0	6
Rhondda Cynon Taf	0	2	0	0
Abertawe	0	9	1	0
Torfaen	0	3	1	2
Bro Morgannwg	0	1	0	1
Wrecsam	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0
Cyfanswm	0	54	12	35

Siart 2.8 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl anghenion addysgol arbennig, o'i gymharu â 2013-14



Siart 2.9 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl rhywedd



Siart 2.10 Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15 yn ôl tarddiad ethnig



Tabl 2.11 Apeliadau yn ôl canlyniad 2014-15, o'i gymharu â 2013-14

	2014-2015		2013-2014	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Wedi'u caniatáu[2]	33	29%	29	30%
Wedi'u tynnu'n ôl[3]	41	36%	35	36%
Cadarnhau'n Llawn	10	9%	7	7%
Cadarnhau'n Rhannol	4	4%	11	11%
Wedi'u gwrthod	5	4%	1	1%
Wedi'u dychwelyd[4]	0	0%	1	1%
Wedi'u dileu[5]	3	3%	0	0%
Ar y gweill[6]	17	15%	13	14%
Cyfanswm	113	100%	97	100%

[2] Wedi'u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALl yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys nad yw'n gwrthwynebu'r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn mae'r apelydd wedi'i ofyn yn ei apêl.
[3] Wedi'u tynnu'n ôl – bydd achosion yn cael eu tynnu'n ôl pan nad yw'r apelydd yn awyddus i barhau â'i apêl rhagor.
[4] Wedi'u dychwelyd – mae'r tribiwnlys yn penderfynu y dylid anfon yr apêl yn ôl at yr ALl yn gofyn iddo ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol.
[5] Wedi'u dileu – caiff achosion eu dileu pan nad yw/na fydd yn berthnasol i awdurdodaeth y tribiwnlys eu hystyried rhagor. Bydd hyn yn dod â'r apêl i'w derfyn.
[6] Ar y gweill – mae achos ar y gweill â'r tribiwnlys.

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2014-15 (Rhan 1)

	Gwrthod asesu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod ailasesu	Peidio â Pharhau
Wedi'u caniatáu	22	8	0	0
Wedi'u tynnu'n ôl	10	2	0	1
Cadarnhau'n Llawn	1	1	0	0
Cadarnhau'n Rhannol	0	0	0	0
Wedi'u gwrthod	4	1	0	0
Wedi'u dychwelyd	0	0	0	0
Wedi'u dileu	0	1	0	0
Ar y gweill	4	4	0	0
Cyfanswm	41	17	0	1

Tabl 2.12 Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2014-15 (Rhan 2)

	Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 3	Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	Cynnwys Datganiad Rhan 4
Wedi'u caniatáu	0	0	0	0	3
Wedi'u tynnu'n ôl	10	9	6	1	2
Cadarnhau'n Llawn	1	5	1	0	1
Cadarnhau'n Rhannol	0	4	0	0	0
Wedi'u gwrthod	0	0	0	0	0
Wedi'u dychwelyd	0	0	0	0	0
Wedi'u dileu	1	1	0	0	0
Ar y gweill	1	2	3	1	2
Cyfanswm	13	21	10	2	8

Tabl 2.13 Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol 2014-15

	Nifer yr apeliadau							
	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Cadarnhau'n Llawn	Cadarnhau'n Rhannol	Wedi'u gwrthod	Wedi'u dychwelyd	Wedi'u dileu	Ar y gweill
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	3	0	0	0	0	0	1
Caerffili	1	2	3	0	0	0	0	0
Caerdydd	4	3	0	0	1	0	0	3
Sir Gaerfyrddin	1	0	0	0	0	0	0	0
Ceredigion	2	1	0	0	0	0	0	1
Conwy	2	3	1	0	1	0	1	4
Sir Ddinbych	0	0	0	1	0	0	0	2
Sir y Fflint	0	2	1	0	0	0	0	0
Gwynedd	1	0	0	0	0	0	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0	1	0	0	0
Sir Fynwy	2	1	1	0	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	2	4	2	0	0	0	0	0
Casnewydd	4	5	0	0	1	0	0	1
Sir Benfro	0	2	0	0	0	0	2	1
Powys	4	4	1	1	1	0	0	1
Rhondda Cynon Taf	1	1	0	1	0	0	0	0
Abertawe	5	1	1	0	0	0	0	3
Torfaen	2	4	0	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	0	3	0	1	0	0	0	0
Wrecsam	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynys Môn	0	2	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	33	41	10	4	5	0	3	17

Siart 2.14 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a gofrestrwyd ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2014-15, o'i gymharu â 2013-14



Tabl 2.15 Mathau o hawliadau a gofrestrwyd yn ystod 2014-15, o'i gymharu â 2013-14

Math o hawliad	2014-2015		2013-2014	
	Cyfanswm yr hawliadau 6		Cyfanswm yr hawliadau 11	
Derbyn	0	0%	1	10%
Addysg	4	67%	9	80%
Gwaharddiadau	2	33%	1	10%

Siart 2.16 Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2014-15, o'i gymharu â 2013-14



Siart 2.17 Ceisiadau llywyddol[7] yn ystod 2014-2015



[7] Ceisiadau llywyddol – bydd yr ysgrifenyddiaeth yn anfon ceisiadau at y Llywydd i'w hystyried yng nghyswllt amrywiol agweddau cyfreithiol ar achosion.

Data Gwrandawiadau

Yn ystod 2014-2015, aeth 27 o achosion ymlaen i wrandawiad, gan arwain at gyfanswm o 31 o ddiwrnodau gwrandawiad:

Math	Hyd (diwrnodau)
Apêl	28 diwrnod gwrandawiad
Hawliad	3 diwrnod gwrandawiad

Cynhaliwyd 5 cynhadledd dros y ffôn hefyd, a phenderfynwyd ar 2 wrandawiad ar sail y papurau.

Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partïon wneud ceisiadau am adolygu penderfyniad y Tribiwnlys ar sail gyfyngedig. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau.

Gall partïon ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn meddwl bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, gwnaethpwyd 2 gais am ganiatâd. Penderfynodd y Tribiwnlys y dylid ystyried un achos fel adolygiad o benderfyniad Tribiwnlys, ond tynnodd yr ceisydd y cais yn ôl o ganlyniad i hynny. Gwrthodwyd y cais arall gan na chafodd ei dderbyn o fewn yr amserlen ar gyfer cyflwyno cais o'r fath.

Cyflawni mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y caiff gwasanaethau eu darparu, mae gennym ni ddangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r nod o fesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym ni gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r adeg y caiff ei wrando neu ei gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd o arolygon cyfnodol ar foddhad cwsmeriaid a gyhoeddwyd wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

Cyflymder ein gwasanaeth

Targed: Trin 95% o'r ymholiadau cyn-cofrestru cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Hawlio/Apêl	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 98% o'r achosion
Targed: Cofrestru 95% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y Ffurflen Hawlio/Apêl	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 97% o'r achosion
Targed: Rhoi 75% o'r penderfyniadau cyn pen 10 niwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 79% o'r achosion
Targed: Ymdrin â 75% o Apeliadau/ Hawliadau cyn pen 20 wythnos	→	Cyrhaeddwyd y targed mewn 96% o'r achosion

Cwynion

Cafodd y Tribiwnlys 3 cwyn ffurfiol yn ymwneud ag un achos yn ystod y flwyddyn.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg boddhad cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Daeth 15 ffurflen wedi'i llenwi yn ystod cyfnod 2014-2015. Rydym yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r meysydd canlynol:

Cyfathrebu

Dywedodd 93% ein bod yn ymateb yn brydlon. Dywedodd 92% ein bod ni'n gwrtais ac yn barod i helpu. Dywedodd 93% fod yr wybodaeth y gwnaethom ei darparu yn gywir ac yn glir.

Gwasanaeth

Dywedodd 84% eu bod yn gallu deall y broses, gyda 78% yn dweud bod y taflenni canllaw roeddem ni wedi'u darparu yn ddefnyddiol. Dywedodd 92% ein bod wedi prosesu eu cais yn effeithlon.

Gwrandawiad

Dywedodd 83% eu bod yn fodlon ar leoliad y man lle cynhaliwyd y gwrandawiad. Dywedodd 83% bod ein staff wedi bod yn gwrtais ac yn barod i helpu yn y gwrandawiad.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2015-2016

Mae'n bwysig bod TAAAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAAAC yn adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2015-2016

- Cynllunio a chynnal digwyddiad hyfforddi i'r holl aelodau
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr yng ngogledd a de Cymru
- Rhoi system werthuso newydd ar waith i'r holl aelodau
- Parhau i fonitro a diweddaru gwefan Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth ar arolygon boddhad cwsmeriaid.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-2015

Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-2015

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion tribiwnlys	£55,000
Digwyddiadau'r Tribiwnlys (costau gwrandawiadau)	£26,000
Cyfanswm*	£81,000

* wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf